# Cofnodion Cyngor Tref Nefyn 13/10/15, Y Ganolfan Edern

---

Presennol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gruffydd Williams | Huw Williams | Sian Hughes | Sharon Williams |
| Guto Williams | Catrin Roberts | John Thomas | Glesni Jones (Clerc) |

1. *Ymddiheuriadau*

   | | | | |
   |---|---|---|---|
   | Ashley Hughes | Bleddyn Evans | Dafydd Rhun | Arfon Hughes |
   | Alan Jones | Robert Williams | | |

2. *Datgan buddiant ariannol neu bersonol*

   Cyng. Sian Hughes datganiad personol

3. *Cofnodion 8fed o Fedi 2015*

   Derbyniwyd y cofnodion yn gywir

4. *Llwybr Saff i'r ysgol*

   Diweddariad gan Cyng. Gruffydd Williams - Fe nodwyd fod y gwaith yn mynd yn ei flaen a bod y gwaith tario bron a darfod. Hefyd mae Glyn Roberts wedi rhoi caniatâd i darmacio ei ddarn o dir ar Rhodfa'r Môr sydd yn cydio ar lwybr.

5. *Cronfa Cymunedau Arfordirol*

   Diweddariad gan Cyng. Gruffydd Williams – Rhan helaeth nawr wedi ei gwblhau £43,000.00 wedi ei dderbyn gan y Gronfa Loteri. Bydd y llwybr o Fro Gwylwyr i'r Ddol yn addas i ddefnyddwyr cadair olwyn. Pawb yn y cyfarfod wedi cytuno i dalu'r gweithwyr fel yr angen gan ein bod ond yn cyfarfod un waith y mis a hefyd yn gorfod aros i'r arian Loteri ddod i mewn, sydd yn cael ei dalu i'r cyfrif fel mae'r gwaith yn mynd yn ei flaen.
   Morfa Nefyn Llwybr Wenolfa – Cerrig Gleision - Bydd angen neud hawl tramwy, mae'r achos wedi ei basio at dwrnai i weld os yw hyn yn bosib. Ella fydd rhaid i Gyngor Gwynedd ei hail agor. Mae Gruffydd Williams a Sian Hughes wedi trefnu cyfarfod gyda Rhys Roberts o'r adran

Felly mae'n ofnadwy o bwysig bod y llwybrau yma yn cael eu cynnal i'r safon gyfredol gan fod hyn yn rhan helaeth o dwristiaeth sydd yn cyfrannu i'r ardal yma.

6. *Llyfrgell Nefyn*

Diweddariad gan Sharon Williams - Mae'r adroddiad nawr wedi dod yn nol gan Sian Shakespear. Ac nid yw'n un positif, mae lle i gwestiynu'r adroddiad yma. Bydd llythyr yn mynd i'r wasg i gadarn faint o amhroffesiynol yw hwn. Ddim yn siŵr faint o lyfrgelloedd fydd yn cefnogi'r llythyr yma gan fod rhai wedi penderfynu yn barod beth maent am wneud yn sgil y toriadau sydd o'i blaenau. Hefyd bydd cysylltiad yn cael ei wneud gyda Llyfrgell o Rws a lwyddodd i wrthdroi'r dyfarniad i'w gau.

7. *Cae aml-ddefnydd*

Diweddariad gan Cyng. Gruffydd Williams - angen y gweithredoedd er mwyn datgan perchennog y tir. Mae angen y rhain er mwyn symud ymlaen gyda'r grantiau. Wedi dod i'r fei cyn y cyfarfod heno ei bod yn cael ei gadw ym Mhwllheli gan Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd. Bydd angen cael copïau er mwyn rhoi i Fantell Gwynedd a Chist Gwynedd. Hefyd mae angen cyfansoddiad i Ymddiriedolaeth Drefol Nefyn.

8. *Traeth Nefyn a Morfa Nefyn*

Y Clerc wedi gwahodd Barry Davies o Gyngor Gwynedd, adain Forwrol, i gyfarfod Cyngor Tref ym mis Ionawr 2016 er mwyn trafod y pryderon gyda cherbydau ar draeth Nefyn a Morfa Nefyn. Bydd angen meddwl a hel cwestiynau erbyn mis Rhagfyr er mwyn i'w cyflwyno i Barry Davies mewn digon o amser i'w alluogi iddo ymholi fel yr angen gyda'i gydweithwyr.

9. *Traeth Nefyn (Tirfeddianwyr)*

Scaffoldiau y cytiau lan mor yn cael ei gadael ar wal y traeth. Angen ysgrifennu llythyr i'r Tirfeddianwyr i ofyn a fysent yn fodlon symud yr scaffoldiau oddi ar y wal.

10. *Cae Chware Edern*

Roedd y clerc wedi ysgrifennu at drysorydd Capel Edern a'r Ganolfan er mwyn gobeithio trefnu cyfarfod i weld os fysai'n bosib ail leoli'r cae chware, ni fuodd yn llwyddiannus.

Ymateb wedi ei dderbyn gan dwrnai Coleg Cymru ynglŷn â'r tir, angen trafod a phenderfynu ymhellach ffordd ymlaen. Efallai bydd agen creu ymddiriedolwyr Cae Chware Edern.

11. *Graffiti - Tywod Arian*

Graffiti wedi cael ei wneud ar wal Tywod Arian dwywaith yng nghanol y Cwpan Rygbi'r Byd pan gollodd Lloegr. Mae'r gofalwr wedi trio yn galed i lanhau'r wal ond yn anffodus mae'r paent dal i ddangos drwodd. Hefyd mae cwmni 'Graffiti Removal' sydd yn arbenigo wedi methu, felly mae nawr yn ddwylo'r cwmni yswiriant.

12. *Arafu Traffig – Morfa Nefyn ac Edern*

Bydd arwyddion 40mph yn mynd fyny ar y lon rhwng Bryncynan a Morfa Nefyn a hefyd o Forfa Nefyn i Edern. Mae angen golau stryd ar y lon Morfa Nefyn i Bryncynan ac efallai yn y dyfodol creu palmant ond yn anffodus nid yw hyn yn broses sydyn gan ei fod angen mynd drwy broses cyfreithiol.

13. *Siec Ysgol Feithrin Edern*

Wedi dod i'n sylw fod y siec a rhoddwyd iddynt ddol ym mis Mai wedi mynd ar goll. Fe dderbyniodd llythyr ganddynt rhy hwyr i drafod yn y cyfarfod yma gan eu bod yn gofyn am ragor o bres ac nid siec arall yn lle a be gollwyd. Angen gyrru llythyr iddynt yn gofyn am gopi o'i gyfrifon.

14. *Sedd Wag Edern*

Rhybudd wedi ei osod yn Edern, Nefyn a Morfa Nefyn yn nodi sedd wag achlysurol yn ward Edern.

15. *Archwiliad Allanol*

Pawb wedi awdurdodi i arwyddo'r ffurflen flynyddol 2015

16. *Parti Calan Gaeaf – Y Ganolfan Nefyn*

Parti yn cael ei gynnal yn Y Ganolfan Nefyn ar noson Calan Gaeaf. Cyfraniad o £300.00 wedi ei dderbyn gan yr heddlu i dalu am y noson.

17. *Siop Siarad Nefyn*

Angen talu rhent bob 3 mis, 3 mis wedi talu o flaen llaw. Pawb wedi cytuno i hyn.

18. *Ceisiadau Cynllunio*

*C15/0794/42/LL - Lledu mynedfa amaethyddol Tir - Bodwyn, Morfa Nefyn*

***Gohebiaeth***

Llythyr wedi ei dderbyn gan Bwyllgor Ysgol Feithrin Edern. Wedi ei dderbyn rhy hwyr i drafod yn y cyfarfod heno.

Cyngor Gwynedd - Llythyr wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd ynglyn a biniau Halen.

***Yn Ychwanegol i'r Agenda***

Pawb wedi cytuno i’r Clerc fynychu unrhyw gwrs fel yr angen.

**Biniau Halen**

Llythyr wedi ei dderbyn gan Gyngor Gwynedd yn datgan ni fydd yn gallu parhau gyda’r ddarpariaeth o lenwi, ailgyflenwi a chynnal a chadw’r biniau halen. Maent wedi rhoi’r cynnig i Gyngor Tref Nefyn gymeryd drosodd y cyfrifoldeb amdanynt o 1af Ebrill, 2016 ymlaen, oherwydd sefyllfa ariannol bresennol y Cyngor.

Ar hyn o bryd nid oes gan Gyngor Gwynedd ffigyrau terfynol, maent wedi amcangyfri’ y bydd y gost o lenwi un bin halen a chost o’i ailgyflenwi yn ystod tymor y gaeaf yn £156.00. Mae 6 bin yn ardal Cyngor Tref Nefyn.

Fe benderfynodd wrth drafod y mater ni fydd y Cyngor Tref yn ymgymryd ar gyfrifoldeb yma gan y byddai’n gost ychwanegol bob blwyddyn.

***Ceisiadau am Gyfraniad.***

Pwyllgor Dathlu 400 Botwnnog

Wedi cytuno i gyfrannu £500.00 i’r achlysur yma.

Taliadau - Caniatâd wedi ei roi i’r Clerc dalu’r isod.

- Cyflog y clerc a PAYE £520.00, £130.00
- Cyflog Simon Jones £1667.37 a PAYE £665.96
- Mr C Hughes £3502.36
  Contract Llwybrau, Gwaith Peintio ac Ychwanegol
- *Griffith, Williams & Co - £89.44 – Gwasanaeth Cyflogau*
- *David Parry – Mynwentydd £ 1028.00*
- *John Gwynfor - £700.00 Mynwentydd - Claddu*
- *Cyngor Gwynedd - Cyfraniad Rheoli traethau Nefyn a Morfa Nefyn £3120.00*
  *Un Llais Cymru – Hyfforddiant - £35.00*

CYFARFOD NESA 10fed O Dachwedd – Ysgol Nefyn.